Rhif: WG45925

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Trefniadau asesu drafft ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

Dyddiad cyhoeddi: 30 Medi 2022
Camau i'w cymryd: 23 Rhagfyr 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

## Trosolwg

O 1 Medi 2022, bydd dyletswydd gyfreithiol ar bob darparwr addysg perthnasol i lunio a gweithredu trefniadau asesu i gefnogi cynnydd plant o fewn y cwricwlwm a fabwysiadwyd ganddynt. Rhaid i bob ymarferwr asesu, mewn perthynas â'u cwricwlwm eu hunain, allu a sgiliau plant er mwyn penderfynu ar:
• eu camau cynnydd nesaf
• y dysgu a'r addysgu sydd ei angen i sicrhau'r cynnydd hwnnw.

Yn yr achos hwn, y darparwyr addysg perthnasol yw
• darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir
Yn ogystal, o fewn chwe wythnos wedi i blentyn ddechrau mewn lleoliad addysg, rhaid i ymarferwyr wneud trefniadau ar gyfer asesu:
• ei sgiliau a'i allu mewn llythrennedd a rhifedd
• ei les, gan gynnwys datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol.

Mae manylion yr hyn sy'n ofynnol gan leoliadau mewn perthynas ag asesu wedi'u nodi yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru) 2022 ("Rheoliadau 2022"). Gwneir Rheoliadau 2022 o dan adran 56 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021"). Mae rheoliad 3(6) o Reoliadau 2022 yn darparu y caiff darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir fabwysiadu, at ddibenion y rheoliad hwnnw, y trefniadau asesu a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 9 yn hytrach na chynllunio asesiadau parhaus y darparwr ei hun. Mae'r rheoliad yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi'r trefniadau asesu hynny.
Mae i'r term "darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir" yr ystyr a roddir iddo yn adran 80(2) o Ddeddf 2021. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ddarparwr o'r fath naill ai gynllunio trefniadau asesu'r darparwr ei hun neu fabwysiadu'r rheini a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 9 Rheoliadau 2022.
Rydym yn ymgynghori ar drefniadau asesu arfaethedig Gweinidogion Cymru ar gyfer rheoliad 9 o Reoliadau 2022. Mae'r rhain wedi'u datblygu i gefnogi ymarferwyr mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir i gyflawni'r ddyletswydd gyfreithiol hon. Mae'r trefniadau asesu drafft wedi cael eu datblygu gan ymarferwyr drwy broses gyd-greu, gyda chefnogaeth arbenigwyr eraill. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o'r broses hon o gyd-greu. Mae'n rhoi cyfle i bob ymarferwr a rhanddeiliad arall gynnig mewnbwn a fydd yn help i ddatblygu'r trefniadau asesu ymhellach.
Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 23 Rhagfyr 2022, ac ar ôl hynny bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried a'u dadansoddi'n annibynnol, yn ogystal â chan ymarferwyr ac eraill sy'n ymwneud â'r broses gyd-greu. Bydd y trefniadau asesu yn cael eu mireinio ar ôl dadansoddi'r adborth, a byddant yn rhan o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru.

## Sut i ymateb

Gallwch gyflwyno eich ymateb, a hynny erbyn hanner nos 23 Rhagfyr 2022, drwy unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwi ein ffurflen ar-lein
- Lawrlwytho a llenwi ein ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon drwy e-bost i: cwricwlwmigymru@llyw.cymru
- Cofiwch gynnwys y cyfeirnod **WG45925** yn llinell bwnc eich e-bost

- Lawrlwytho a llenwi ein ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon drwy'r post i'r cyfeiriad a nodir isod.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.
Canllawiau fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru
Fersiwn hawdd ei deall yn hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-newydd-yng-nghymru-hawdd-ei-ddeall/
Cefnogi'r broses o drosglwyddo o'r trefniadau presennol i Gwricwlwm i Gymru yn hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/trefniadau-asesu/cefnogi-r-broses-o-drosglwyddo-o-r-trefniadau-presennol-i-gwricwlwm-i-gymru/
Deunyddiau ategol ar gyfer y cwricwlwm, asesu, a gwerthuso cynnydd dysgwyr yn hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/deunyddiau-ategol-ar-gyfer-y-cwricwlwm-asesu-a-gwerthuso-cynnydd-dysgwyr/
Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-ar-gyfer-lleoliadau-meithrin-a-ariennir-nas-cynhelir
Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgynghoriadau

## Manylion cyswllt

Dysgu Sylfaen
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

e-bost: cwricwlwmigymru@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd

LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb. Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i’w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu’r data
- (o dan rai amgylchiadau) i’ch data gael eu ‘dileu’
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: ico.org.uk/

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniad** | **2** |
| **2.** | **Pwy ddylai ddefnyddio’r trefniadau asesu hyn?** | **3** |
| **3.** | **Beth mae’r trefniadau asesu hyn yn ei gynnwys?** | **4** |
| **4.** | **Cynnydd** | **5** |
| 4.1 | Egwyddorion cynnydd | 5 |
| 4.2 | Cymhwyso egwyddorion cynnydd ar gyfer plant 3 a 4 oed | 6 |
| 4.3 | Datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd | 8 |
| 4.4 | Cynnwys rhieni, gofalwyr a phlant i gefnogi cynnydd | 9 |
| 4.5 | Ystyriaethau allweddol ar gyfer deialog broffesiynol ystyrlon | 10 |
| **5.** | **Asesu** | **12** |
| 5.1 | Asesu parhaus | 12 |
| **6.** | **Rôl arsylwi wrth wneud asesiadau cychwynnol a pharhaus** | **14** |
| 6.1 | Arsylwadau ysgrifenedig | 14 |
| 6.2 | Defnyddio recordiadau fideo | 15 |
| 6.3 | Oedolion sy’n galluogi dysgu | 15 |
| 6.4 | Sylwi | 16 |
| 6.5 | Dadansoddi | 16 |
| 6.6 | Ymateb | 17 |
| **7.** | **Trefniadau asesu cychwynnol** | **19** |
| 7.1 | Asesu datblygiad sgiliau llythrennedd | 20 |
| 7.2 | Asesu datblygiad sgiliau rhifedd | 24 |
| 7.3 | Asesu datblygiad corfforol | 28 |
| 7.4 | Asesu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | 30 |
| 7.5 | Pwyntiau allweddol i’w hystyried wrth gynnal asesiadau cychwynnol | 32 |
| **8.** | **Geirfa** | **33** |
| **9.** | **Cwestiynau’r ymgynghoriad** | **35** |

# 1. Cyflwyniad

Datblygwyd y trefniadau asesu hyn ar y cyd gan ymarferwyr, ar gyfer ymarferwyr. Mae'n ymgorffori arbenigedd o bob rhan o'r sector nas cynhelir, ynghyd â barn arbenigwyr ym maes datblygiad plant ac addysg gynnar. Bwriedir i'r canllawiau gael eu defnyddio ar y cyd â'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. Nid oes rheidrwydd arnoch i fabwysiadu'r rhain, ac rydych yn rhydd i gynllunio eich trefniadau asesu eich hun at ddibenion Rheoliadau 2022.

Mae'r trefniadau asesu hyn yn cydnabod bod pob plentyn yn unigryw a'i fod yn datblygu'n gyflym iawn yn ystod 5 mlynedd cyntaf ei fywyd. Mae'n cefnogi datblygiad cyfannol drwy sicrhau bod anghenion datblygiadol plant yn rhan flaenllaw o ymarfer addysgegol. Mae'n cefnogi'r broses o asesu cynnydd plant ar ddechrau'r continwwm dysgu 3 i 16 oed, er mwyn rhoi'r dechrau gorau posibl iddyn nhw ar eu taith ddysgu.

Mynegir y trefniadau asesu hyn o safbwynt yr ymarferydd, ac mae'n amlinellu egwyddorion a dibenion allweddol asesu, gyda'r nod o gefnogi cynnydd y plentyn unigol. Mae'n rhoi cyfeiriad clir ar gyfer trefniadau asesu yn y dyfodol, gan gynnwys prosesau allweddol fel:

- datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd
- cyfnodau pontio ar hyd y continwwm rhwng 3 ac 16 oed
- cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni a gofalwyr

Mae'r trefniadau asesu yn ystyried y canllawiau statudol Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu y mae'n rhaid i bob ymarferydd roi sylw iddo wrth wneud trefniadau ar gyfer asesu plant.

## 2. Pwy ddylai ddefnyddio’r trefniadau asesu hyn?

Mae’r trefniadau asesu hyn at ddefnydd darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir. Yn ôl y diffiniad yn adran 80 Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, ystyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir yw addysg feithrin a ddarperir:

(i) gan berson ac eithrio corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
(ii) o dan drefniadau a wneir rhwng y person hwnnw ac awdurdod lleol yng Nghymru, drwy arfer dyletswydd yr awdurdod lleol i sicrhau addysg feithrin o dan adran 118 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p 31)
(iii) yn gydnabyddiaeth am y cymorth ariannol a ddarperir gan yr awdurdod o dan y trefniadau

Diffinnir addysg feithrin yn yr adran honno hefyd i olygu addysg amser llawn a rhan-amser sy’n addas i blant nad ydyn nhw wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol. Er mai at ddarparwyr addysg a ariennir nas cynhelir yr anelir y trefniadau asesu hyn, byddant yn fuddiol hefyd i ymarferwyr addysgu sy’n ymwneud â darparu addysg feithrin mewn lleoliadau o’r fath. Rydyn ni’n gwerthfawrogi mai’r unigolion canlynol, yn bennaf, fydd yn eu defnyddio yn ymarferol:

- rheolwyr, arweinwyr ac ymarferwyr mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir i ddarparu addysg gynnar yng Nghymru
- athrawon ymgynghorol yn y blynyddoedd cynnar, neu’r rhai mewn rolau cyfatebol mewn awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, sy’n helpu lleoliadau i gynllunio a darparu addysg gynnar
- sefydliadau eraill sy’n rhoi cymorth proffesiynol i leoliadau meithrin nas cynhelir
- rheolwyr, arweinwyr ac ymarferwyr mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir nas ariennir i ddarparu addysg gynnar, ond y mae’n ofynnol iddyn nhw, o dan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, weithredu yn unol â gofynion statudol y cwricwlwm

## 3. Beth mae'r trefniadau asesu hyn yn ei gynnwys?

Mae dyletswydd gyfreithiol[1] ar bob darparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir i wneud trefniadau asesu sy'n cefnogi cynnydd plant o fewn y cwricwlwm a fabwysiadwyd, ac i roi'r trefniadau hynny ar waith. O ran y cwricwlwm a fabwysiadwyd gennyn ni, mae'n rhaid i ni asesu gallu a doniau plant er mwyn penderfynu:

- y camau nesaf yn eu cynnydd
- y dysgu a'r addysgu sydd eu hangen i wneud y cynnydd hwnnw

Yn ogystal, o fewn chwe wythnos ar ôl i blentyn ddechrau cael addysg feithrin a ariennir, rhaid i ni wneud trefniadau i asesu'r canlynol

- ei sgiliau a'i alluogrwydd mewn llythrennedd a rhifedd
- ei les, gan gynnwys datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol

Bydd y trefniadau asesu hyn yn ein helpu i:

- ddeall cynnydd plant o ran eu dysgu
- cymhwyso egwyddorion cynnydd yn ymarferol
- datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd ar draws ein lleoliad
- defnyddio gwaith arsylwi i lywio darpariaeth sy'n helpu plant i wneud cynnydd
- gwybod am drefniadau asesu cychwynnol a pharhaus, a'u cynnal

[1] Rhoddir y ddyletswydd gyfreithiol hon ar waith yn rhinwedd adran 56 Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn rhinwedd y Rheoliadau a wnaed o dan yr adran honno. Y rheoliadau cyfredol yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru) 2022.

# 4. Cynnydd

Mae helpu plant i wneud cynnydd wrth wraidd y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. Dylen ni ddefnyddio'r llwybrau datblygu i gynllunio profiadau dysgu sy'n helpu plant i wneud cynnydd. Dylen ni gynnig cyfleoedd i blant feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd newydd a'u cymhwyso mewn cyd-destunau ystyrlon. Wrth gynllunio ar gyfer ac asesu cynnydd plant, dylen ni ystyried nodweddion pedwar diben Cwricwlwm i Gymru a'u defnyddio mewn ffordd sy'n briodol i'w cam datblygu. Dylen ni sicrhau bod ein hasesiadau'n bwrpasol ac yn cefnogi lles a chynnydd plant.
Mae cynnydd wrth ddysgu yn cyfeirio at y broses o feithrin a gwella sgiliau a gwybodaeth plant dros amser. Rydyn ni'n gwybod bod cynnydd yn unigryw i bob plentyn, a'i fod yn aml yn gysylltiedig â lles da, lefelau cyfranogi ac agweddau cadarnhaol at ddysgu. Gan fod pob plentyn yn datblygu ar ei bwysau ei hun, dylen ni ganiatáu ar gyfer amrywiaeth o wyriadau, seibiannau a neidiau ar hyd ei daith ddysgu. Dylai deall sut mae plant yn gwneud cynnydd lywio'r trefniadau asesu fel rhan o'n gwaith cynllunio a'n harferion. Wrth gynllunio, dylen ni ganiatáu amser, lle a rhyddid i'r plentyn sy'n datblygu atgyfnerthu'r hyn y mae'n ei ddysgu drwy gyfleoedd i ailystyried ei wybodaeth a'i sgiliau newydd, a'u mireinio, o fewn y pum llwybr datblygu ac ar eu traws.

## 4.1 Egwyddorion cynnydd

Mae'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn seiliedig ar bum egwyddor gorfodol cynnydd, sef:

- Cynyddu effeithiolrwydd
- Cynyddu ehangder a dyfnder gwybodaeth
- Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y meysydd dysgu a phrofiad (Meysydd)
- Mireinio sgiliau a datblygu soffistigeiddrwydd wrth eu defnyddio a'u cymhwyso
- Creu cysylltiadau a throsglwyddo'r dysgu i gyd-destunau newydd

Mae'r egwyddorion cynnydd hyn yn rhai cydgysylltiedig; maen nhw'n disgrifio'r hyn y mae'n ei olygu i blant wneud cynnydd a'r mathau o alluoedd ac ymddygiadau y dylen ni eu hasesu. Mae plant yn dangos cynnydd drwy ddangos mwy o ehanger a dyfnder o ran eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth, eu sgiliau a'u galluoedd, wrth iddyn nhw fagu mwy o hyder a dod yn fwy annibynnol. Wrth i blant wneud cynnydd, dylen nhw ddechrau creu cysylltiadau ym mhob rhan o'u dysgu a'u datblygiad mewn cyd-destunau newydd a heriol, gan eu galluogi i wireddu pedwar diben y cwricwlwm drwy'r llwybrau datblygu.

Wrth asesu cynnydd plant, dylen ni ddefnyddio'r egwyddorion cynnydd ochr yn ochr â'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir er mwyn:

- deall sut beth yw cynnydd o fewn y pum llwybr datblygu ac ar eu traws
- cynllunio profiadau dysgu diddorol a datblygiadol briodol
- llywio ein harsylwadau ar les plant a'u cynnydd wrth ddysgu
- datblygu amrywiaeth o ddulliau asesu er mwyn sicrhau cynnydd
- helpu i feithrin dealltwriaeth a rennir o gynnydd drwy ddeialog broffesiynol

## 4.2 Cymhwyso egwyddorion cynnydd ar gyfer plant 3 a 4 oed

Mae egwyddorion cynnydd yn disgrifio taith ddysgu o 3 i 16 oed. Mae'r testun isod yn dangos sut y gellir cymhwyso'r egwyddorion hyn mewn ffyrdd sy'n ddatblygiadol briodol er mwyn ein helpu i asesu dysgu a chynnydd plant bach.

| Cynyddu effeithiolrwydd | Sut beth yw hyn ar gyfer plant 3 a 4 oed |
|---|---|
| Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, maen nhw'n dod yn fwyfwy effeithiol wrth ddysgu mewn cyd-destun cymdeithasol a chysylltiedig â gwaith. Wrth iddyn nhw ddod yn fwyfwy effeithiol, gallan nhw geisio cymorth priodol a nodi ffynonellau'r cymorth hwnnw yn annibynnol. Maen nhw'n gofyn cwestiynau mwy soffistigedig ac yn dod o hyd i atebion o ystod o ffynonellau a'u gwerthuso. Mae hyn yn cynnwys nodi eu camau dysgu nesaf, dulliau hunanwerthuso mwyfwy llwyddiannus a dulliau hunanreoleiddio mwy effeithiol. | Mae plant yn magu hyder, yn meithrin gallu ac yn dod yn fwyfwy annibynnol wrth ddysgu. Maen nhw'n dangos chwilfrydedd wrth chwarae, a lefelau cynyddol o ddiddordeb a brwdfrydedd. Gallan nhw gyfathrebu'n fwy effeithiol a meithrin eu sgiliau talu sylw a gwrando mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Gydag amser a chefnogaeth, maen nhw'n meithrin gwydnwch emosiynol ac yn datblygu cydberthnasau i fynegi a chydnabod eu teimladau nhw a theimladau pobl eraill. |

| Cynyddu ehangder a dyfnder gwybodaeth | Sut beth yw hyn ar gyfer plant 3 a 4 oed |
|---|---|
| Mae angen i ddysgwyr feithrin gwybodaeth ddofn ac eang. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, byddan nhw'n datblygu dealltwriaeth fwyfwy soffistigedig o gysyniadau sy'n sail i ddatganiadau gwahanol o'r hyn sy'n bwysig. Maen nhw'n gweld y gydberthynas rhwng y rhain ac yn eu defnyddio i lywio | Mae plant yn dechrau archwilio amrywiaeth o gysyniadau. Maen nhw'n meithrin eu dealltwriaeth newydd drwy ddull profi a methu. Maen nhw'n dechrau creu cysylltiadau â dysgu newydd, a meddwl a gweithredu'n fwy effeithlon. Maen nhw'n dilyn eu diddordebau, eu syniadau a'u sgemâu eu hunain er mwyn |

| | |
|---|---|
| gwybodaeth, gwneud synnwyr ohoni a'i chymhwyso ymhellach. Mae hyn yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o gysyniadau. | gwneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas ac ehangu ac atgyfnerthu eu dealltwriaeth. |

| **Dyfnhau dealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau o fewn y Meysydd** | **Sut beth yw hyn ar gyfer plant 3 a 4 oed** |
|---|---|
| Mae dulliau cyfannol yn bwysig iawn yn ystod dysgu cynnar wrth i ddysgwyr ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas. Dylai dysgwyr ddod yn fwyfwy ymwybodol o ffyrdd o grwpio a threfnu syniadau a dulliau gweithredu mewn modd cydlynol. Wrth iddyn nhw wneud cynnydd, bydd angen iddyn nhw gael profiad o ddysgu disgyblaethol a'i ddeall ym mhob un o'r Meysydd a gweld y rhain yng nghyd-destun y pedwar diben a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. | Mae plant yn meithrin gwybodaeth a sgiliau dwfn ac eang o fewn y llwybrau datblygu ac ar eu traws. Maen nhw'n dangos llawer iawn o frwdfrydedd a diddordeb mewn amrywiaeth eang o brofiadau dilys priodol. Maen nhw'n dechrau dangos rhai o nodweddion y pedwar diben wrth chwarae ac archwilio. |

| **Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau** | **Sut beth yw hyn ar gyfer plant 3 a 4 oed** |
|---|---|
| Mae angen i ddysgwyr feithrin amrywiaeth o sgiliau, gan gynnwys sgiliau corfforol, cyfathrebu, gwybyddol a phenodol i Faes. Yn ystod y camau dysgu cynnar, mae'r amrywiaeth hon o sgiliau yn cynnwys canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau motor bras a manwl, sgiliau cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol. Maen nhw hefyd yn datblygu sgiliau gwerthuso a threfnu gwybodaeth wrth gymhwyso'r hyn a ddysgwyd ganddyn nhw. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, byddan nhw'n cymhwyso sgiliau presennol mewn ffyrdd mwy caboledig, a byddan nhw'n cael cyfleoedd i feithrin sgiliau newydd, mwy penodol a mwy soffistigedig.<br><br>Dros amser, gall dysgwyr drefnu nifer cynyddol o syniadau fwyfwy soffistigedig yn effeithiol, cymhwyso dealltwriaeth mewn cyd-destunau amrywiol a chyfleu eu syniadau'n effeithiol, gan | Mae plant yn cael budd o'r amser a'r cyfle i archwilio, mireinio ac atgyfnerthu eu sgiliau datrys problemau, cyfathrebu, corfforol a chymdeithasol yn ystod profiadau dysgu seiliedig ar chwarae dilys. Mae plant yn dangos eu dealltwriaeth o gysyniadau mewn amrywiaeth o gyd-destunau cyfarwydd a newydd. Maen nhw'n cyfleu eu meddwl drwy weithredoedd, ystumiau a geiriau. |

| | |
|---|---|
| ddefnyddio ystod o ddulliau, adnoddau neu offer sy'n briodol i'w diben a'u cynulleidfa. | |

| **Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd** | **Sut beth yw hyn ar gyfer plant 3 a 4 oed** |
|---|---|
| Dylai dysgwyr greu cysylltiadau, yn fwyfwy annibynnol, ym mhob rhan o'u dysgu o fewn Maes, rhwng Meysydd a chyda'u profiadau y tu allan i'r ysgol. Gydag amser, bydd y cysylltiadau hyn yn fwyfwy soffistigedig, ac yn cael eu hesbonio a'u cyfiawnhau gan ddysgwyr. Dylen nhw allu defnyddio a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau a feithrinwyd yn flaenorol mewn cyd-destunau gwahanol, anghyfarwydd a heriol. | Mae plant yn dechrau creu cysylltiadau drwy archwilio'r byd o'u cwmpas. Maen nhw'n meithrin eu ffyrdd newydd o feddwl drwy ddilyn eu diddordebau arbennig a'r hyn sy'n ennyn eu chwilfrydedd. Maen nhw'n dechrau gwneud dewisiadau a phenderfyniadau mewn cyd-destunau chwarae cyfarwydd. Wrth iddyn nhw ddod yn fwy hyderus ac annibynnol, maen nhw'n dechrau cymhwyso eu sgiliau a'u gwybodaeth at gyd-destunau anghyfarwydd. Dros amser, a chyda chefnogaeth, maen nhw'n gwneud addasiadau angenrheidiol i ateb heriau a manteisio ar gyfleoedd sefyllfaoedd newydd. |

## 4.3 Datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd

Er mwyn meithrin dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, dylen ni ystyried a thrafod egwyddorion cynnydd a'u perthnasedd i blant 3 a 4 oed. Mae deialog broffesiynol parhaus o fewn a rhwng lleoliadau yn ganolog i'n gwaith o ddatblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd i bob plentyn. Mae cymryd rhan mewn deialog broffesiynol yn cynnig cyfleoedd i ni:

- fyfyrio ar ein dealltwriaeth o gynnydd a'r cysylltiad rhyngddo â'n cwricwlwm, gan fwydo i mewn i brosesau cynllunio, asesu, hunanwerthuso a gwella
- datblygu, rhannu a chymharu ein hymarfer â lleoliadau eraill

Dylid cynnal deialog broffesiynol o fewn ein lleoliad i sicrhau cyd-ddealltwriaeth ar draws y lleoliad. Fe ddylai gael ei gynnal:

- gyda rhanddeiliaid perthnasol
- rhwng ein lleoliad ni a lleoliadau lleol, er mwyn helpu i sicrhau dealltwriaeth gydlynol o gynnydd a phontio effeithiol
- rhwng ein lleoliad ni a lleoliadau eraill lle y bo'n bosibl (er enghraifft mewn rhwydweithiau lleol neu ranbarthol, neu grŵp ar wahân a sefydlwyd ar gyfer cydweithio)
- rhwng ein lleoliad ni ac ysgolion, yn enwedig i hwyluso pontio effeithiol

Dylen ni sicrhau bod canlyniadau deialog broffesiynol yn llywio ein gwaith dysgu ac addysgu. Dylen ni fod yn glir ynghylch y cynnig rydyn ni am i blant ei wneud yn ystod eu cyfnod gyda ni. Mae trafodaethau â rhieni a gofalwyr yn helpu i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o ddatblygiad cyfannol plentyn. Drwy gynnal trafodaethau o fewn ein lleoliad a chyda lleoliadau ac ysgolion eraill, dylai fod modd sicrhau dealltwriaeth a disgwyliadau cyson ym mhob rhan o'r sector. Mae'r ddealltwriaeth gyffredin hon rhwng lleoliadau yn helpu i sicrhau pontio didrafferth, a dylai hyn arwain at gynnydd parhaus. Mae trafodaethau proffesiynol yn ein helpu i werthuso a yw ein disgwyliadau ar gyfer plant yn ymarferol ac yn ddigon heriol, ac a oes angen unrhyw gyngor neu gymorth allanol.

Dylai arweinwyr lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir rhoi trefniadau ar waith i alluogi pawb sy'n rhan o'r broses dysgu ac addysgu yn y lleoliad i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol am gynnydd. Rhaid iddyn nhw hefyd:

- neilltuo staff i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol â'r ysgolion hynny y mae'r plant yn pontio iddyn nhw, er mwyn helpu i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o gynnydd [2]
- helpu staff i gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol rheolaidd er mwyn dyfnhau eu trafodaethau proffesiynol

## 4.4 Cynnwys rhieni, gofalwyr a phlant i gefnogi cynnydd[3]

Dylen ni feithrin cydberthnasau cadarnhaol â rhieni a gofalwyr a'u cynnwys mewn sgyrsiau pwrpasol ac ystyrlon parhaus am ddatblygiad eu plentyn. Dylen ni gydweithio i gefnogi dysgu a datblygiad plentyn o fewn amgylchedd y lleoliad a'r tu allan iddo.

Dylen ni rannu gwybodaeth â rhieni a gofalwyr am y canlynol:

---

[2] Cyfrifoldeb ysgolion yw gwahodd lleoliadau i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol.
[3] Gweler hefyd y Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu

- lles cyffredinol plant yn y lleoliad
- y cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud
- anghenion plant er mwyn gwneud cynnydd yn y dyfodol
- sut y gellir cefnogi cynnydd gartref

Dylen ni wneud hyn yn rheolaidd, mewn modd hygyrch, er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr. Mae'n bwysig sicrhau bod gwybodaeth ac adborth yn hawdd eu deall. Dylen nhw fod yn glir ac ni ddylen nhw gynnwys jargon. Gellir rhannu'r wybodaeth hon ar lafar, drwy lwyfannau digidol, wyneb yn wyneb a/neu ar ffurf ysgrifenedig.

Dylen ni grynhoi cynnydd plant yn rheolaidd a rhannu'r wybodaeth gan ganolbwyntio ar les cyffredinol y plentyn a'r cynnydd a wnaed, yn ogystal â nodi unrhyw anghenion penodol. Dylid rhannu gwybodaeth am unrhyw gymorth, ymyriadau neu anghenion ychwanegol yn unol â chanllawiau a pholisïau ar anghenion dysgu ychwanegol (ADY)[4]. Dylen ni ystyried a chynnwys unigolion perthnasol eraill lle y bo'n briodol.

Wrth ryngweithio o ddydd i ddydd, dylen ni nodi cyfleoedd i sylwi ar gynnydd unigol ac unigryw plant, ei ddathlu a'i annog, a hynny mewn ffyrdd sensitif ac ystyrlon. Drwy arsylwi'n effeithiol, dylen ni allu dadansoddi'r hyn rydyn ni'n ei weld a'i glywed, ac ymateb mewn ffyrdd a fydd yn helpu plant i wneud cynnydd a deall eu cynnydd.

## 4.5 Ystyriaethau allweddol ar gyfer deialog broffesiynol ystyrlon

Fel arweinwyr, dylen ni roi trefniadau priodol a chadarn ar waith i gefnogi deialog broffesiynol yn y lleoliad a chyda gweithwyr proffesiynol eraill, a monitro'r trefniadau hynny. Dylem ystyried y cyfleoedd canlynol i ymgysylltu.

| Ar lefel y lleoliad | Ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol |
|---|---|
| • Sgyrsiau rheolaidd â rhieni a gofalwyr<br>• Sgyrsiau proffesiynol rheolaidd â phartneriaid allweddol<br>• Cyfarfodydd pontio rhwng y cartref, lleoliadau ac ysgolion | • Cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol<br>• Parhau'r cydberthnasau rhwydweithio sy'n bod eisoes er mwyn trafod cynnydd a rhannu arferion da |

[4] Fel y nodir yn Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021

| | |
|---|---|
| • Cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn[5], lle y bo'n briodol<br>• Cyfarfodydd rheolaidd i'r holl staff, ymarferwyr, ystafell/tîm a chyda unrhyw rhanddeiliaid perthnasol<br>• Trefniadau arsylwi effeithiol, gan gynnwys:<br>– cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i rannu arsylwadau er mwyn myfyrio ar gynnydd plant<br>– defnyddio fideos i gefnogi ein dealltwriaeth o gynnydd<br>– monitro prosesau cynllunio, gan ddefnyddio arsylwadau ar anghenion plant | • Datblygu cydberthnasau rhwydweithio newydd i drafod cynnydd<br>• Defnyddio canlyniadau trafodaethau i wella dealltwriaeth a llywio prosesau hunanwerthuso a chynlluniau gwella<br>• Gweithio gyda'r awdurdod lleol/consortia rhanbarthol a manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol<br>• Ymgysylltu â'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu'r Cwricwlwm |

[5] Fel y nodir yn Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021

# 5. Asesu[6]

Mae'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn ein hatgoffa y dylai asesu fod yn fwy nag ymarfer rhestr dicio neu ddigwyddiad untro, ac y dylai fod yn rhan annatod o ddysgu ac addysgu. Mae'r cwricwlwm yn ein hannog i sicrhau bod plant yn dysgu wrth eu pwysau eu hunain ac yn yr amgylchedd dysgu a ffefrir ganddyn nhw. Dylen ni asesu datblygiad emosiynol, cymdeithasol, gwybyddol a chorfforol plant o fewn y pum llwybr datblygu ac ar eu traws. Dylai asesu effeithiol ein helpu i adnabod plant y gall fod angen cymorth neu her ychwanegol arnyn nhw. Gall y temtasiwn i ni ruthro drwy sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau gael effaith andwyol ar y camau dysgu nesaf. Ar bob cam datblygu, dylen ni ganolbwyntio ar anghenion presennol y plentyn ac nid ar yr anghenion hynny a ddaw i'r amlwg dros y blynyddoedd nesaf.

Mae asesu yn chwarae tair prif rôl yn y broses o alluogi cynnydd:

- helpu'r plentyn unigol yn barhaus o ddydd i ddydd
- nodi, cofnodi a myfyrio ar gynnydd unigol dros amser
- deall cynnydd grŵp er mwyn myfyrio ar arferion

## 5.1 Asesu parhaus

Dylen ni ddefnyddio ein gwaith asesu parhaus i fesur a dogfennu twf, datblygiad a dysgu plant. Mae dibynadwyedd ein hasesiadau parhaus yn dibynnu ar ansawdd ein rhyngweithio a'r profiadau a'r amgylcheddau dysgu a grëwn. Dylai asesiadau fod yn hydrin ac yn gymesur i anghenion plant unigol. Dylid ceisio osgoi trefniadau asesu sy'n seiliedig ar ddull 'un ateb i bawb', er mwyn caniatáu ar gyfer y cynnydd anwastad y gallwn ni ei ddisgwyl gan blant unigol.

Mae asesu parhaus yn cynnig gwybodaeth amhrisiadwy. Dylid ei defnyddio i:

- gyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni a gofalwyr
- dathlu dysgu plant
- helpu pob plentyn a grwpiau o blant i wneud cynnydd

[6] Gweler hefyd y Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu

- darparu gwybodaeth ar gyfer y camau nesaf, a all gynnwys ystyried, atgyfnerthu neu herio dysgu
- llywio gwaith cynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu

Dylid asesu plant 3 a 4 oed fel mater o drefn drwy arsylwi arnyn nhw; dylai fod yn rhan o arferion o ddydd i ddydd a llywio'r ffordd rydyn ni'n cynllunio ar gyfer ein plant. Gellir asesu cynnydd mewn eiliad neu dros gyfnod hwy. Ffurfiolir yr asesu drwy rannu'r arsylwadau ag eraill, eu dilysu a'u cofnodi.

# 6. Rôl arsylwi wrth wneud asesiadau cychwynnol a pharhaus

Diben asesu arsylwadol yw penderfynu ar ba gam y mae plant ar eu taith ddysgu. Mae arsylwi'n ein helpu i wybod beth sy'n cymell plant bach, yn ennyn eu diddordeb ac yn hoelio eu sylw. Mae arsylwi yn ein helpu i gydnabod eu lefelau cyfranogi, eu cyflyrau emosiynol, pwy yw eu ffrindiau a pha wybodaeth, sgiliau a chymwyseddau sydd ganddyn nhw. Dylen ni ddefnyddio gwaith arsylwi i asesu gwybodaeth, sgiliau ac agweddau plant drwy gyfuniad o brofiadau a arweinir gan y plentyn ac a gefnogir gan yr ymarferydd. Mae hyn yn ein helpu i fesur ar ba gam y mae plentyn ar ei daith ddysgu, beth sydd angen iddo ei gyflawni nesaf a beth sydd angen iddo ei wneud er mwyn ei gyflawni, gan ystyried unrhyw rwystrau i ddysgu.

Dylen ni arsylwi ar blant gydol y dydd, tu mewn a'r tu allan, wrth iddyn nhw chwarae'n unigol ac ar y cyd, ac fel rhan o arferion dyddiol cyfarwydd fel amser bwyd ac wrth ryngweithio â rhieni a gofalwyr. Mae'r cyd-destunau hyn yn ein helpu i greu darlun cyfannol o'r plentyn a'r ffordd y mae'n ymateb i amrywiaeth o sefyllfaoedd a phobl wahanol.  Wrth arsylwi, dylen ni gofnodi cynnydd plant yn erbyn y cwricwlwm dan sylw, gan gynnwys, ond ddim wedi ei gyfyngu i'w lles (gan gynnwys datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol), a'u sgiliau, eu gwybodaeth a'u cymwyseddau mewn llythrennedd a rhifedd, dros amser.

Gallwn ni arsylwi ar blant mewn amrywiaeth o ffyrdd er mwyn cefnogi ein dealltwriaeth o'u dysgu a'u cynnydd i lywio ein gwaith cynllunio. Ymhlith y rhain mae:

- arsylwadau ar hap ar rywbeth pwysig
- arsylwadau am gyfnod penodol o amser
- arsylwadau sy'n asesu cynnydd datblygiadol
- arsylwadau wedi'u cynllunio ar agweddau penodol ar ddysgu a datblygiad

## 6.1 Arsylwadau ysgrifenedig

Fel rhan o'n trefniadau asesu parhaus, dylai arsylwadau ysgrifenedig fod yn bwrpasol ac yn hydrin ac ni ddylen ni eu defnyddio i gasglu tystiolaeth yn unig. Dylen ni bob amser gadw'r plentyn unigol mewn cof wrth ystyried beth sy'n bwysig ac yn werth ei gofnodi. Ni ddylai hyn fod yn broses rhy lafurus.

Gallwn ni ddewis o blith ystod eang o fformatau i'n helpu i nodi ac asesu dysgu a datblygiad plentyn, gan gynnwys:

- straeon dysgu
- naratifau byr
- disgrifiadau cymeriad
- cofnodlyfrau dysgu
- anodiadau byr
- apiau/llwyfannau/meddalwedd digidol

Bydd achlysuron pan fydd angen inni rannu gwybodaeth a cheisio cyngor ar sail ein dadansoddiad o'n harsylwadau dros gyfnod o amser. Gellir defnyddio ein harsylwadau i gefnogi'r trafodaethau hyn a/neu brosesau atgyfeirio ar gyfer plant sydd ag ADY. Yn yr achosion hyn, efallai y byddwn ni'n coladu ein harsylwadau mewn adroddiad.

## 6.2 Defnyddio recordiadau fideo

Mae recordio cyfleoedd chwarae a dysgu sy'n seiliedig ar chwarae yn ffordd ddefnyddiol o'n helpu i werthuso ac asesu dysgu plant. Gall fod yn ffordd effeithiol o feithrin dealltwriaeth gyffredin o ddysgu a chynnydd. Os byddwn ni'n dewis recordio, dylen ni sicrhau y caiff hynny ei wneud mewn modd sensitif fel nad yw'n tarfu ar chwarae'r plant. Efallai y byddwn ni'n rhannu'r recordiadau â rheini, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill os bydd hynny'n briodol. Efallai y byddwn ni hefyd yn rhannu'r recordiadau â'r plant er mwyn eu helpu i hunanfyfyrio.

## 6.3 Oedolion sy'n galluogi dysgu

Er mwyn arsylwi ar ddysgu a'i asesu'n effeithiol, dylen ni ymuno â'r chwarae ac archwilio meddwl y plentyn wrth chwarae. Bydd adegau pan fyddwn ni am gymryd cam yn ôl, er mwyn arsylwi a gwrando, gan adael i'r chwarae ddatblygu. Rydyn ni'n gwneud hyn gan ein bod ni'n cydnabod y gallai ein cyfraniad neu'n hymyrraeth fod yn ddigroeso a/neu darfu ar y chwarae. Bydd rhannu ein harsylwadau mewn amgylchedd diogel a chefnogol yn ein helpu i ddysgu oddi wrth ein gilydd, gan ddefnyddio ein cryfderau ein gilydd a chodi ymwybyddiaeth o unrhyw ragfarn ddiarwybod a allai fod gennyn ni.

Mae'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn esbonio sut beth yw proses arsylwi effeithiol, a sut y gall gefnogi'r broses asesu. Dylai'r broses gylchol o 'sylwi, dadansoddi ac ymateb' fod yn rhan annatod o'n penderfyniadau o ddydd i ddydd wrth ystyried a ddylid ymateb i ddysgu plant, pryd a sut. Fel oedolion sy'n galluogi dysgu, dylen ni sylwi ar ddysgu plant, ei ddadansoddi ac ymateb iddo, a hynny mewn ffyrdd sy'n llywio ein hasesiadau.

## 6.4 Sylwi

Wrth wraidd ein gwaith arsylwi mae'r gred ein bod ni'n arsylwi er mwyn casglu gwybodaeth gyfoethog am ddatblygiad cyfannol plant. Dylen ni gadw mewn cof na ddylai arsylwi fod yn rhwystr i ryngweithio, ac na ddylai rhyngweithio fod yn rhwystr i sylwi. Gall yr arsylwi ddigwydd yn ddigymell neu gael ei gynllunio. Dylen ni sylwi ar:

- yr hyn sydd o ddiddordeb i'r plant ac yn ennyn eu chwilfrydedd
- sut maen nhw'n defnyddio adnoddau a lle
- sut maen nhw'n cyfathrebu ac yn rhyngweithio ag eraill

Dylen ni sylwi ar hyder, gwydnwch, annibyniaeth a chymhwysedd y plant, ynghyd ag unrhyw newidiadau i'r rhain. Mae'n bosibl y bydd plant yn ymateb i ymarferwyr mewn ffyrdd gwahanol ac mewn sefyllfaoedd gwahanol. Dylen ni sicrhau ein bod ni'n mynd ati i arsylwi â meddwl agored a'n bod ni'n barod i rannu arsylwadau ag eraill er mwyn trafod yr hyn rydyn ni'n ei weld a'i glywed mewn modd gwrthrychol. Dylai'r trafodaethau hyn gynnig arsylwadau mwy cynhwysfawr ar blant unigol.

## 6.5 Dadansoddi

Dylen ni ddehongli'r hyn rydyn ni'n ei weld a'i glywed a phenderfynu a yw'r arsylwad yn arwyddocaol ac, felly, yn werth ei nodi. Dylen ni ystyried a ydyn ni wedi dysgu rhywbeth newydd am y plentyn neu a yw wedi atgyfnerthu rhywbeth rydyn ni eisoes yn ei wybod. Wrth i ni ddehongli'r hyn rydyn ni wedi ei weld a'i glywed, dylen ni ystyried yr hyn y gallai ei olygu ar gyfer y plentyn penodol hwnnw, mewn perthynas â'r canlynol:

- ei wybodaeth
- i ba raddau y mae'n meithrin sgiliau
- i ba raddau y mae'n datblygu cysyniadau

- ei sgemâu neu ei ddysgu sgematig
- ei agweddau at ddysgu mewn sefyllfaoedd gwahanol
- ei gynnydd neu unrhyw anawsterau y gall fod yn eu hwynebu

Wrth i ni fyfyrio ar y gwaith dadansoddi hwn, dylen ni ystyried ein gwybodaeth am gefndir ieithyddol a diwylliannol y plentyn, datblygiad y plentyn a'r cwricwlwm dan sylw. Bydd adegau pan fyddwn ni'n gweithredu ar ein harsylwadau yn syth wrth i ni sylwi ar gyfleoedd dysgu digymell. Yn yr achos hwn, efallai y byddwn ni'n defnyddio disgrifiad naratif i gyfleu'r dysgu sydd wedi digwydd i'r plentyn.

## 6.6 Ymateb

Yn seiliedig ar ein dadansoddiad o'n harsylwadau, gallwn ni wneud penderfyniadau am yr hyn i'w wneud nesaf er mwyn helpu'r plentyn i wneud cynnydd. Gall hyn gynnwys penderfyniadau ynglŷn ag a ddylid rhyngweithio, pryd a sut; a ddylid gwneud addasiadau i'r amgylchedd dysgu a sut i gyfoethogi profiadau ymhellach.

Os byddwn ni'n penderfynu cefnogi neu ymuno â'r chwarae, dylen ni gydnabod y gallen ni darfu ar feddwl y plentyn a'i sgiliau datrys problemau pan fyddan nhw wedi ymgysylltu'n llawn. Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i wella ac ymestyn y dysgu drwy gyfleoedd dysgu digymell. Efallai y byddwn ni'n dewis modelu sgil, cynnig adnodd, cyflwyno geirfa, defnyddio cwestiynau agored i ysgogi'r meddwl, neu gymryd rhan mewn gwaith cyd-feddwl parhaus am rywbeth sydd o ddiddordeb i'r plentyn.

Wrth ystyried y broses o feithrin sgiliau a datblygu cysyniadau, dylen ni gynllunio cyfleoedd i blant fireinio, cyfuno neu feistroli'r sgiliau a'r cysyniadau hyn, gan nad oes rhaid i'r camau nesaf fod yn llinol. Bydd rhoi amser i'r plant ymdrochi yn eu dysgu yn ystod cyfnodau o chwarae
di-dor yn eu helpu i gyfuno a mireinio eu sgiliau meddwl. Dylen ni fanteisio i'r eithaf ar ddiddordebau'r plant a'u diddordebau arbennig yn yr amgylchedd, ac achub ar gyfleoedd i'w cynnwys yn eu dysgu mewn ffordd ddilys.

**I grynhoi**

| **Dylai asesu arsylwadol fod yn:** | **Ni ddylai asesu arsylwadol fod yn:** |
|---|---|
| • nodi'r hyn y gall plant ei wneud a'r ffordd y maen nhw'n dysgu | • canolbwyntio ar fylchau canfyddedig mewn dysgu |

| | |
|---|---|
| • cyfrannu at greu darlun holistaidd o'r dysgwr a deall y cynnydd a wneir dros amser | • categoreiddio neu labelu plant |
| • rhan o arferion o ddydd i ddydd | • ddigwyddiad untro neu'n gyfres o dasgau |
| • anymwthiol | • tarfu ar ddysgu a chwarae dilys |
| • cynnwys dadansoddiad o'n harsylwadau | • cael ei ddefnyddio fel mesur atebolrwydd ynddo'i hun |
| • llywio'r dysgu a'r addysgu | • annibynnol ar yr dysgu a'r addysgu |
| • ystyrlon ac yn ddefnyddiol | • llafurus a chymryd llawer o amser |
| • gyfrifoldeb a rennir | • fater i un oedolyn ar ei ben ei hun |
| • cynnwys safbwyntiau'r plentyn a'r rheini/gofalwyr | • cael ei gwblhau ar wahân |

## 7. Trefniadau asesu cychwynnol

Mae trefniadau asesu cychwynnol yn gam cyntaf pwysig yn y broses asesu barhaus. Dylai ein trefniadau asesu cychwynnol gynnwys barn rhieni a gofalwyr er mwyn helpu i greu darlun o sgiliau a gwybodaeth unigryw pob plentyn, ochr yn ochr â'i gefndir a'i ddiwylliant. Dylen ni ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio ein hasesiadau. Rhaid i'r asesiadau cychwynnol gael eu cynnal o fewn chwe wythnos ar ôl i blentyn ddechrau cael addysg feithrin a ariennir, a rhaid iddyn nhw fod yn addas i blant o bob oedran, gallu a dawn. Yn ddelfrydol, dylai mwy nag un ymarferydd arsylwi ar blant, a dylen ni rannu arsylwadau a chydweithio er mwyn sicrhau asesiadau cadarn a chyflawn. Rhaid i'r trefniadau gynnwys asesu:

- sgiliau a galluogrwydd plant mewn llythrennedd a rhifedd
- lles plant, gan gynnwys datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol

Dylai'r camau cyntaf hyn ein helpu i feithrin dealltwriaeth o blant unigol, gan gynnwys nodi eu cryfderau, y meysydd lle mae angen iddyn nhw wella, a'r rhai lle mae angen mwy o ffocws neu gymorth. Dylen ni ddefnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio'r addysgu a'r dysgu yn unol â'r cwricwlwm dan sylw.

Rydyn ni'n gwybod y gall ymuno â lleoliad newydd weithiau fod yn gyfnod cythryblus i blant bach. Ni ddylen ni ruthro i gynnal asesiadau. Yn lle hynny, dylen ni roi'r amser i'r plant setlo, a bydd hyn hefyd yn rhoi'r cyfle i ni feithrin cydberthnasau cryf.

Dylai'r trefniadau asesu cychwynnol ganolbwyntio ar y plentyn a bod yn ddatblygiadol briodol, er mwyn ein helpu i ganfod yr hyn y mae plant yn ei wybod a'r hyn y gallan nhw ei wneud. Dylen ni wneud arsylwadau anymwthiol dros y chwe wythnos cyntaf ar ôl iddyn nhw ddechrau addysg. Ni ddylai'r trefniadau hyn ein hatal rhag rhyngweithio â'r plant nac achub ar gyfleoedd i addysgu. Dylen ni sicrhau ein bod ni'n cofnodi ein harsylwadau mewn ffordd gryno a hydrin sy'n gweithio'n dda i'n lleoliad ni. Mae'n bosibl y bydd rhai plant yn mynychu mwy nag un lleoliad a dylen ni weithio'n agos gyda'r lleoliad arall i rannu gwybodaeth berthnasol. Mae trafodaethau proffesiynol yn ein helpu i feithrin dealltwriaeth gyffredin o gryfderau, anghenion a diddordebau plant unigol. Dylai'r trafodaethau hyn fod o gymorth i wneud penderfyniadau am y ffordd orau o helpu plant i wneud cynnydd. Gall trefniadau cychwynnol effeithiol ein helpu i nodi plant y gall fod angen cymorth ychwanegol arnyn nhw drwy ymyriadau cynnar neu her. Efallai y bydd angen i ni geisio cymorth a chyngor gan asiantaethau allanol, a all olygu bod angen i ni gwblhau asesiadau ychwanegol.

Ar ddiwedd y chwe wythnos cyntaf, dylen ni goladu a chrynhoi'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r asesiadau a'i rhannu â phartneriaid allweddol.

Cyflwynir y trefniadau asesu cychwynnol hyn fel cyfres o gwestiynau i ni eu hystyried wrth arsylwi ar blant yn ein lleoliad yn ystod y chwe wythnos cyntaf. Mae'r cwestiynau hyn yn cynnwys disgrifiadau o'r mathau o ymddygiadau y byddwn ni'n sylwi arnyn nhw o bosibl o ran datblygiad, dysgu a chynnydd plant wrth chwarae a dilyn arferion dyddiol. Mynegir y disgrifiadau hyn o safbwynt y plentyn ac maen nhw'n cael eu cyflwyno mewn colofnau er mwyn ein helpu i nodi man cychwyn pob plentyn ac i gyfleu cynnydd. Mae'n bwysig cofio y gall plant ddangos amrywiaeth o ymddygiadau a chymwyseddau a all rychwantu mwy nag un golofn, felly dylen ni ddefnyddio'r disgrifiadau yn eu cyfanrwydd i bennu man cychwyn pob plentyn.

Nid yw'r disgrifiadau'n gynhwysfawr ac ni fwriedir iddyn nhw gael eu defnyddio fel rhestr dicio. Yn hytrach, dylen ni eu defnyddio i lywio ein harsylwadau ar y cyd er mwyn asesu cynnydd plant.

## 7.1 Asesu datblygiad sgiliau llythrennedd

Mae sgiliau llythrennedd cynnar plant yn seiliedig ar ddatblygiad eu lleferydd, eu hiaith a'u cyfathrebu. Dylai asesiad effeithiol nodi cymhwysedd plentyn o ran ei leferydd, ei iaith a'i gyfathrebu. Dylen ni fod yn hyderus o ran ein dealltwriaeth o'r camau datblygu er mwyn i ni allu asesu sgiliau llythrennedd plant yn gywir i gefnogi eu cynnydd. Mae nifer o ffactorau risg a all effeithio ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu hirdymor plentyn. Mae'r rhain yn cynnwys ffactorau ffisiolegol[7], ffactorau teuluol ac amgylcheddol[8], a ffactorau cyfathrebu[9]. Dylen ni ymdrin â sgiliau llythrennedd plentyn mewn modd cyfannol ac ystyried y ffactorau risg hyn er mwyn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am y camau nesaf i bob plentyn unigol.

Er mwyn creu darlun cywir o sgiliau llythrennedd, dylid ystyried cymhwysedd plentyn yn iaith y cartref ac iaith y lleoliad. Rydyn ni'n gwybod bod y sgiliau a ddysgir mewn un iaith yn cefnogi'r broses o gaffael ieithoedd eraill ac na ddylai iaith cartref plentyn fod yn rhwystr i gynnal asesiad cywir. Lle y bo angen, gellir defnyddio dulliau ac adnoddau asesu perthnasol eraill i gefnogi ein hasesiadau.

| **Ystyriwch** | **I ddechrau:** | **Wrth i mi ddatblygu:** |
|---|---|---|

[7] Ymhlith yr enghreifftiau o ffactorau ffisiolegol mae'r clyw, rhywedd adeg geni ac anian.
[8] Ymhlith yr enghreifftiau o ffactorau teuluol ac amgylcheddol mae hanes y teulu o ran anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, statws economaidd-gymdeithasol ac ansawdd
y rhyngweithio o fewn y teulu.
[9] Ymhlith yr enghreifftiau o ffactorau cyfathrebu mae baldorddi, ystumiau a geirfa.

| | | |
|---|---|---|
| **I ba raddau ydw i'n dangos fy mod yn gwrando?** | • Efallai y bydd angen i chi roi ciw corfforol neu eiriol i mi er mwyn tynnu fy sylw.<br>• Efallai y byddaf i'n gallu canolbwyntio ar un profiad ar y tro ac efallai y bydd angen help oedolyn arnaf i er mwyn troi fy sylw at rywbeth arall.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau gwrando gan dalu sylw cynyddol. | • Efallai y byddaf i'n gallu troi fy sylw yn annibynnol i wrando ar eraill.<br>• Efallai y byddaf i'n parhau i chwarae gan wrando ar eraill ar yr un pryd. |
| **I ba raddau ydw i'n dangos fy mod yn deall iaith?** | • Efallai y byddaf i'n ymateb i gyfarwyddiadau neu awgrymiadau syml, ar lafar neu fel arall, ac yn eu dilyn. | • Efallai y byddaf i'n ymateb yn briodol i wybodaeth, cyfarwyddiadau a chwestiynau fwyfwy cymhleth.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau gofyn cwestiynau er mwyn i mi ddeall yn well. |
| **I ba raddau ydw i'n ymuno â straeon, caneuon a rhigymau?** | • Efallai y byddaf i'n dangos diddordeb mewn stori, cân neu rigwm, er enghraifft efallai y byddaf i'n symud yn agosach er mwyn gallu gwrando.<br>• Efallai y byddaf i'n dewis canu neu berfformio caneuon a rhigymau tebyg wrth chwarae. | • Efallai y byddaf i'n dechrau ymuno drwy gyfrannu ystumiau, synau, geiriau syml neu ddangos mwynhad.<br>• Efallai y byddaf i'n rhagweld ac yn ymuno â rhannau cyfarwydd o straeon, caneuon a rhigymau sy'n hawdd eu rhagfynegi. |
| **I ba raddau ydw i'n rhyngweithio ag eraill?** | • Efallai y byddaf i'n rhyngweithio ag eraill ar lafar neu fel arall, gan ymateb i giwiau a defnyddio iaith y corff, cyswllt llygad neu ystumiau fel pwyntio.<br>• Efallai y byddaf i'n siarad ag eraill am bethau sydd o ddiddordeb i mi. | • Efallai y byddaf i'n dechrau datblygu fy nealltwriaeth o reolau sgwrs, er enghraifft efallai y byddaf i'n cymryd fy nhro wrth gyfathrebu ag oedolion a phlant eraill.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau cyfathrebu ag eraill er mwyn cynnal y chwarae. Hefyd efallai y byddaf i'n dangos diddordeb yn yr hyn y mae plant eraill yn chwarae ag ef ac yn ymuno â'r chwarae. |

| | | |
|---|---|---|
| **I ba raddau ydw i'n dangos fy nealltwriaeth o gysyniadau a geirfa?** | • Efallai y byddaf i'n dangos dealltwriaeth o gysyniadau drwy chwarae, er enghraifft efallai y byddaf i'n archwilio'r 'trwm' a'r 'ysgafn' wrth chwarae â thywod.<br>• Efallai y byddaf i'n defnyddio geirfa briodol yn ystod arferion dyddiol, wrth chwarae ac wrth wrando ar eraill ac ymateb iddyn nhw. | • Efallai y byddaf i'n dechrau defnyddio amrywiaeth ehangach o eirfa mewn cyd-destunau gwahanol. |
| **I ba raddau ydw i'n sicrhau bod pobl yn fy neall?** | • Efallai y byddaf i'n dechrau defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyfathrebu ag eraill, er enghraifft mynegiant wyneb, ystumiau, synau, arwyddion neu giwiau gweledol.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau ac yn cymryd rhan mewn sgwrs gan ddefnyddio geiriau unigol neu ymadroddion byr, er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl yn fy neall. | • Efallai y byddaf i'n dechrau defnyddio brawddegau mwyfwy cymhleth i fynegi fy hun.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau siarad yn glir a chael fy neall gan oedolion anghyfarwydd. |
| **I ba raddau ydw i'n datblygu fy ngeirfa?** | • Efallai y byddaf i'n dechrau defnyddio enwau, berfau ac ansoddeiriau yn fwyfwy cywir wrth chwarae ac archwilio. | • Efallai y byddaf i'n defnyddio geiriau ac ymadroddion o straeon, caneuon a rhigymau mewn cyd-destunau chwarae gwahanol.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau defnyddio geiriau mwyfwy soffistigedig, er enghraifft efallai y byddaf i'n defnyddio mwy nag un gair ar gyfer cysyniad, fel 'bach', 'bychan', 'pitw'. |
| **I ba raddau ydw i'n dangos diddordeb mewn llyfrau a deunyddiau darllen eraill?** | • Efallai y byddaf i'n dewis llyfrau a deunyddiau darllen eraill sydd o ddiddordeb i mi, naill ai gyda chymorth oedolyn neu yn annibynnol. | • Efallai y byddaf i'n gallu archwilio a thrin llyfrau a deunyddiau darllen yn briodol, er enghraifft efallai y byddaf i'n sylweddoli bod rhai llyfrau'n cynnwys straeon a bod rhai eraill yn cynnwys gwybodaeth.<br>• Efallai y byddaf i'n cofio a/neu'n ymateb i straeon cyfarwydd drwy chwarae symbolaidd, er enghraifft gan ddefnyddio propiau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Efallai y byddaf i'n dechrau ailadrodd digwyddiadau allweddol mewn straeon cyfarwydd.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau creu cysylltiadau rhwng straeon neu lyfrau a phrofiadau yn fy mywyd |
| **I ba raddau ydw i'n sylwi ar symbolau yn fy amgylchedd?** | • Efallai y byddaf i'n dangos ymwybyddiaeth o symbolau o'm cwmpas ac yn dechrau creu cysylltiadau rhyngddyn nhw a'm profiadau fy hun.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau sylwi ar yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng symbolau. | • Efallai y byddaf i'n dechrau adnabod fy enw mewn cyd-destunau gwahanol, er enghraifft ar fy mheg côt ac wrth hunangofrestru.<br>• Efallai y byddaf i'n dangos fy mod yn deall bod gwahaniaeth rhwng darluniadau a thestun, a rhwng llythrennau a rhifynnau.<br>• Efallai y byddaf i'n adnabod enwau fy ffrindiau ac yn deall bod rhai ohonyn nhw'n dechrau gyda'r un llythyren. |

| | | |
|---|---|---|
| **I ba raddau ydw i'n defnyddio marciau i gyfathrebu?** | • Efallai y byddaf i'n sylwi ar bobl eraill yn gwneud marciau ac efallai y byddaf i'n dangos fy mod yn dechrau sylweddoli bod ystyr i farciau weithiau.<br>• Efallai y byddaf i'n dangos fy mod yn deall bod gwahaniaeth rhwng yr hyn rwy'n gallu tynnu llun ohono a'r hun rwy'n gallu ei ysgrifennu.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau dangos diddordeb mewn ysgrifennu fy enw. I ddechrau, efallai y byddaf i'n defnyddio marciau, neu ambell siâp tebyg i lythyren, i gynrychioli'r enw. | • Efallai y byddaf i'n dynwared marciau wrth chwarae ac yn dewis yr offer, yr adnoddau neu'r defnyddiau sydd eu hangen arna i. Efallai y bydd fy marciau'n edrych fel sgribladau i ddechrau, ac yna'n datblygu i gynnwys llinellau, siapiau a symbolau bwriadol.<br>• Efallai y byddaf i'n defnyddio fy lluniau a'm marciau i ailadrodd fy mhrofiadau.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau ysgrifennu fy enw'n fwyfwy cywir.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau defnyddio fy marciau newydd i labelu pethau sydd o ddiddordeb i mi, er enghraifft 'tatws' yn yr ardd, neu 'cadw'ch allan' yn yr ardal blociau. |

## 7.2 Asesu datblygiad sgiliau rhifedd

Mae plant yn meithrin dealltwriaeth o iaith, cysyniadau a sgiliau mathemategol drwy chwarae amlsynnwyr a phrofiadau dilys. Dylen ni gydnabod bod mathemateg ym mhobman, a'i bod yn golygu llawer mwy na rhifau. Dylen ni ymdrin â datblygiad mathemategol mewn modd cyfannol a chydnabod bod elfennau o fathemateg a rhifedd ym mhob un o'r pum llwybr datblygu.

Dylen ni arsylwi ar blant yn ystod cyfleoedd chwarae dyddiol wrth iddyn nhw ryngweithio ag adnoddau dilys penagored i'w helpu i ddeall cysyniadau mathemategol mewn bywyd pob dydd. Dylen ni ddefnyddio ein harsylwadau i lywio cyfleoedd dysgu digymell, a all gynnwys modelu iaith a sgiliau mathemategol priodol drwy gydol y dydd, mewn cyd-destunau bywyd go iawn, er mwyn helpu'r plant i ddatblygu eu dealltwriaeth gysyniadol a'u cymhwysedd strategol. Dylen ni arsylwi ar blant yn gweithio drwy'r broses o ddatrys problemau a rhoi amser iddyn nhw arsylwi, archwilio, ymchwilio ac arbrofi. Dylid rhoi gwerth ar y broses datrys problemau hon fel nod ynddi hi ei hun, ac efallai na fydd bob amser yn arwain at ganlyniad nac ateb.

| **Ystyriwch:** | **I ddechrau:** | **Wrth i mi ddatblygu:** |
|---|---|---|
| **I ba raddau ydw i'n dilyn arferion cyfarwydd?** | • Efallai y byddaf i'n gallu dilyn arfer ddyddiol glir a chyson, neu rannau o arfer, gyda chymorth, er enghraifft golchi fy nwylo cyn bwyta byrbryd neu wisgo fy esgidiau glaw cyn mynd allan i chwarae tu allan.<br>• Efallai y byddaf i'n deall trefn digwyddiadau ond efallai y bydd angen cymorth arnaf i er mwyn gwneud y dasg.<br>• Gyda chymorth, efallai y byddaf i'n gallu nodi'r cysylltiad rhwng achos ac effaith.<br>• Efallai y byddaf i'n datblygu fy sgiliau dilyniant, er enghraifft efallai y byddaf i'n dechrau creu cysylltiadau rhwng cyd-destunau chwarae drwy olchi'r ddoli yn y bath cyn ei rhoi yn y gwely, neu wneud teisennau o does chwarae ac esgus eu rhoi yn y popty. | • Efallai y byddaf i'n gallu dilyn arfer ddyddiol glir a chyson, yn fwyfwy annibynnol.<br>• Efallai y byddaf i'n deall trefn digwyddiadau ac yn gallu gwneud y dasg, yn fwyfwy annibynnol.<br>• Efallai y byddaf i'n fwy hyderus wrth nodi'r cysylltiad rhwng achos ac effaith.<br>• Efallai y byddaf i'n gallu cofio'r prif ddigwyddiadau mewn straeon wrth chwarae, ac efallai y byddaf i'n dechrau defnyddio adnoddau byd bach i gynrychioli'r cymeriadau, er enghraifft y tri mochyn bach. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Efallai y byddaf i'n gallu cofio'r prif ddigwyddiadau mewn straeon wrth chwarae. | |
| **I ba raddau ydw i'n adnabod ac yn sylwi ar yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol?** | • Efallai y bydd angen cymorth arnaf i baru gwrthrychau a'u didoli, er enghraifft wrth roi pethau o'r neilltu yn y man priodol yn ystod 'Amser tacluso'.<br>• Efallai y byddaf i'n sylwi bod rhai pethau yr un peth, er enghraifft yn ystod amser byrbryd efallai y byddaf i'n sylwi bod gan blentyn arall yr un ffrwyth â mi.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau casglu'r un gwrthrychau ynghyd wrth chwarae.<br>• Efallai y byddaf i'n sylwi pan fydd rhywbeth yn wahanol neu'n eithriad. | • Efallai y byddaf i'n gallu paru gwrthrychau a'u didoli, yn fwyfwy annibynnol, er enghraifft yn ystod 'Amser tacluso' efallai y byddaf i'n rhoi pethau o'r neilltu yn y man priodol, heb fawr ddim cymorth, os o gwbl.<br>• Efallai y byddaf i'n gallu cyffredinoli a chasglu pethau tebyg ynghyd, er enghraifft efallai y byddaf i'n casglu'r holl gerbydau neu'r holl anifeiliaid.<br>• Efallai y byddaf i'n sylwi pan fydd rhywbeth yn wahanol, neu'n eithriad, ac efallai y byddaf i'n gallu disgrifio'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng pethau. |

| | | |
|---|---|---|
| **A ydw i'n sylwi ar symbolau yn fy amgylchedd ac yn dechrau sylweddoli bod ystyr iddyn nhw?** | • Efallai y byddaf i'n cymryd rhan mewn cyfleoedd chwarae cynrychioliadol, er enghraifft sylweddoli y gall y ddoli fod yn fabi.<br>• Efallai y byddaf i'n adnabod fy enw a symbolau eraill yn yr amgylchedd, er enghraifft fy enw ar fy mheg côt neu arwyddion sy'n dangos faint o blant sy'n cael chwarae mewn ardal.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau rhoi ystyr i'r symbolau a'r marciau rwy'n eu gwneud, gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau, gan gynnwys cyfryngau digidol, er enghraifft efallai y byddaf i'n rhoi cynnig ar ysgrifennu fy enw neu greu siartiau cyfrif syml i gofnodi casgliadau a dal bysedd i fyny i ddangos y nifer. | • Efallai y byddaf i'n dechrau sylweddoli bod adnoddau byd bach yn gallu cynrychioli pethau go iawn.<br>• Efallai y byddaf i'n gwneud marciau yn lle symiau, er enghraifft efallai y byddaf i'n cofnodi tri bwch gafr drwy nodi tri marc cylch.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau sylwi bod ystyr i rai ffotograffau, lluniau a phrintiau amgylcheddol.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau dangos fy mod i'n gallu deall bod gwahaniaeth rhwng llythrennau a rhifynnau. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Efallai y byddaf i'n dechrau tynnu lluniau i gofnodi stori neu gyfres o ddigwyddiadau rwy'n eu hadrodd. | |
| **I ba raddau ydw i'n meithrin dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol drwy chwarae?** | • Efallai y byddaf i'n dechrau archwilio cysyniadau mathemategol drwy chwarae, er enghraifft y cysyniad 'llawn' drwy lenwi a gwagio cynwysyddion yn yr hambwrdd dŵr.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau datblygu fy nealltwriaeth o faint, siâp, safle a mesurau, er enghraifft wrth chwarae â blociau, efallai y byddaf i'n cymharu strwythurau ac yn ychwanegu rhagor o flociau er mwyn gwneud y tŵr yn dalach.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau datblygu fy nealltwriaeth o'r cysyniad 'mwy', er enghraifft efallai y byddaf i'n gwybod pryd mae angen i mi gloddio am ragor o fwd er mwyn gwneud pastai a dod o hyd i ragor o gonceri i'w addurno.<br>• Efallai y byddaf i'n dangos ymwybyddiaeth o gysyniadau amser syml, fel 'cyn ac ar ôl', er enghraifft efallai y byddaf i'n deall y dylwn i olchi fy nwylo ar ôl chwarae â'r mwd neu wisgo fy nghôt cyn mynd allan i'r awyr agored.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau defnyddio fy nealltwriaeth o gysyniadau mathemategol i ddatrys problemau, er enghraifft efallai y byddaf i'n dod o hyd i astell hirach i bontio bwlch neu, os na allaf i ddod o hyd i un, efallai y byddaf i'n gwthio'r cratiau yn agosach at ei gilydd er mwyn gwneud y bwlch yn llai. | • Efallai y byddaf i'n dechrau trosglwyddo fy nealltwriaeth o gysyniadau mathemategol mewn meysydd gwahanol a chyda gwrthrychau gwahanol.<br>• Efallai y byddaf i'n datblygu fy nealltwriaeth o faint, siâp, safle a mesurau yn fwyfwy soffistigedig, er enghraifft efallai y byddaf i'n defnyddio blociau mwy ar waelod y tŵr er mwyn gwneud yn siŵr na fydd yn cwympo. |
| **I ba raddau ydw i'n deall maint?** | • Efallai y byddaf i'n dangos fy mod yn deall pan fydd gen i lawer o eitemau a gwrthrychau. | • Efallai y byddaf i'n dechrau cymharu symiau, er enghraifft efallai y byddaf yn sylwi pan fydd gan |

| | | |
|---|---|---|
| | • Efallai y byddaf i'n dechrau sylwi pan nad oes digon o rywbeth, er enghraifft os na fydd digon o esgidiau glaw i bob plentyn neu ddigon o does chwarae ar ôl i wneud teisen arall.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau dangos ymwybyddiaeth o 'ormod', er enghraifft efallai y bydd gen i ormod o geir i'w rhoi yn y garej.<br>• Efallai y byddaf i'n datblygu fy nealltwriaeth o ohebiaeth un i un, er enghraifft rhoi plât i bob plentyn yn ystod amser byrbryd.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau deall bod angen i mi wneud lle os nad oes digon ohono, er enghraifft symud i wneud lle i fy ffrind eistedd wrth fy ochr er mwyn i ni allu edrych ar lyfr gyda'n gilydd.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau sylweddoli y gallaf i gyfrif unrhyw beth wrth chwarae, nid dim ond gwrthrychau, er enghraifft camau a chlapiau. | rywun fwy o fefus nag sydd gen i neu pan fydd gen i lai o geir na fy ffrind.<br>• Efallai y byddaf i'n gallu priodoli rhifau i symiau, er enghraifft efallai y byddaf i'n dewis pedwar sialc i fi fy hun a thri ffrind.<br>• Efallai y bydd fy nealltwriaeth o ohebiaeth un i un yn datblygu ymhellach, er enghraifft efallai y byddaf i'n gallu cyfrif nifer y plant ac yna ddewis digon o gwpanau i bawb. Efallai y byddaf i'n dechrau sylweddoli os bydd plentyn arall yn ymuno â'r grŵp, y bydd angen i mi estyn cwpan ychwanegol.<br>• Efallai y byddaf i'n meithrin dealltwriaeth well o'r broses o drosi rhifau, er enghraifft os byddaf i wedi cyfrif tri mochyn coed, byddaf i'n gwybod bod tri ac ni fydd angen i mi eu cyfrif eto. |
| **I ba raddau ydw i'n meithrin dealltwriaeth o batrwm?** | • Efallai y byddaf i'n sylwi ar batrymau yn fy amgylchedd, er enghraifft smotiau ar fuwch goch gota, neu stribedi ar sebra mewn llyfr lluniau.<br>• Efallai y byddaf i'n ymateb i batrymau clywedol, er enghraifft dawnsio i'r curiad neu ddrymio â llwy ar sosban.<br>• Efallai y byddaf i'n gallu rhoi digwyddiadau mewn trefn resymegol, er enghraifft gwisgo sanau cyn sgidiau neu wybod y bydd rhywun yn fy nghasglu ar ôl i ni ganu 'Hwyl Fawr'. | • Efallai y byddaf i'n dechrau sylweddoli bod patrymau a dilyniannau'n gallu tyfu, er enghraifft rwy'n gallu pentyrru'r cwpanau mewn trefn o'r mwyaf i'r lleiaf neu'n gwybod, ar ôl i rywun fy nghasglu, y byddaf i'n mynd adref, yn cael cinio ac yna'n mynd i'r parc.<br>• Efallai y byddaf i'n adnabod patrymau a dilyniannau sy'n ailadrodd, er enghraifft efallai y byddaf i'n rhoi dail a blodau am yn ail ar sgiwer yn y gegin fwd. |

## 7.3 Asesu datblygiad corfforol

Mae datblygiad corfforol yn bwysig i bob agwedd ar fywyd plentyn a'i gyfleoedd i ddysgu. Mae'n arbennig o bwysig wrth asesu datblygiad plentyn ein bod ni'n ystyried y gorgyffwrdd rhwng ei ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol, gwybyddol a chorfforol. Drwy gydol y blynyddoedd cynnar, mae plant yn caffael ac yn datblygu eu sgiliau symud a chorfforol mewn modd cyfannol ar draws pob maes y llwybrau datblygu.

| Ystyriwch: | I ddechrau: | Wrth i mi ddatblygu: | Wrth i mi barhau i ddatblygu: |
|---|---|---|---|
| **I ba raddau ydw i'n cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol?** | • Efallai y byddaf i'n ysgogi neu'n dangos diddordeb mewn cyfleoedd chwarae corfforol a/neu symud, er enghraifft rhedeg o gwmpas neu neidio mewn pyllau. | • Efallai y byddaf i'n treulio cyfnodau hir o amser yn gwneud mathau penodol o chwarae corfforol, er enghraifft mynd ar gefn beic, cloddio neu gicio pêl. | • Efallai y byddaf i'n ymestyn fy chwarae corfforol gan ddefnyddio adnoddau ychwanegol, neu drwy arbrofi â symudiadau gwahanol. |
| **Pa mor hyderus ydw i wrth chwarae'n gorfforol?** | • Efallai y byddaf i'n cymryd amser i edrych ar yr amgylchedd a gwylio eraill cyn rhoi cynnig arni fy hun.<br>• Efallai y bydd angen help arnaf i fanteisio ar gyfleoedd chwarae neu gymryd rhan ynddyn nhw. | • Efallai y byddaf i'n dechrau archwilio fy ngallu corfforol drwy ddefnyddio dull profi a methu.<br>• Efallai y byddaf i'n dangos natur benderfynol i herio fy hun yn gorfforol ac efallai y byddaf i'n manteisio ar amrywiaeth ehangach o brofiadau corfforol. | • Efallai y byddaf i'n dod yn fwyfwy parod i fentro neu'n dibynnu'n llai ar anogaeth gan eraill. |
| **I ba raddau ydw i'n dangos ymwybyddiaeth gorfforol wrth symud?** | • Efallai y byddaf i'n dechrau archwilio ac arbrofi â symud fy nghorff yn yr amgylchedd o'm cwmpas. | • Efallai y byddaf i'n dangos fy mod yn gallu symud fy hun mewn perthynas â'm gallu corfforol a'r lle a'r adnoddau sydd ar gael yn yr amgylchedd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Efallai y byddaf i'n magu mwy o hyder o ran y ffordd rwy'n symud fy nghorff. | |
| **Pa mor gydgysylltiedig yw fy sgiliau motor bras?** | • Efallai y byddaf i'n gallu cadw cydbwysedd a chydsymud mewn amrywiaeth o gyd-destunau.<br>• Efallai y byddaf i'n dangos fy sgiliau motor bras drwy amrywiaeth eang o symudiadau, er enghraifft dringo, cicio a thaflu.<br>• Efallai y byddaf i'n gallu croesi'r llinell ganol a defnyddio dwy ochr fy nghorff ar yr un pryd. | • Efallai y byddaf i'n dangos rheolaeth gynyddol dros fy sgiliau motor bras. | • Efallai y byddaf i'n gallu trefnu fy symudiadau, er enghraifft rhedeg ac yna gicio pêl, neu gicio pêl sy'n symud. |
| **Pa mor gydgysylltiedig yw fy sgiliau motor manwl?** | • Efallai y byddaf i'n defnyddio fy mysedd â deheurwydd a chryfder cynyddol, er enghraifft pwyso switsh.<br>• Efallai y byddaf i'n cydio mewn eitemau bach wrth chwarae ac yn defnyddio offer a chyfarpar wrth gyflawni fy arferion dyddiol.<br>• Efallai y byddaf i'n defnyddio dwy law gyda'i gilydd wrth chwarae, er enghraifft dal llyfr ag un llaw a throi'r tudalennau â'r llall. | • Efallai y byddaf i'n gallu defnyddio fy nwylo a'm bysedd â rheolaeth gynyddol, er enghraifft i gau ac agor botymau a sipiau ar fy nillad.<br>• Efallai y byddaf i'n gallu defnyddio offer â rheolaeth gynyddol, er enghraifft defnyddio pensil i dynnu llun.<br>• Efallai y byddaf i'n gallu defnyddio dwy law gyda'i gilydd yn fwyfwy soffistigedig, er enghraifft i ddal pêl. | • Efallai y byddaf i'n gallu defnyddio fy nwylo'n effeithiol mewn amrywiaeth o gyd-destunau, er enghraifft agor caead, dadwisgo doliau neu droi dolen. |

## 7.4 Asesu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol

Mae teimlo'n gysylltiedig ac yn ddiogel yn elfennau allweddol o les cadarnhaol ymhlith plant a gallan nhw hybu ymdeimlad cryf o berthyn. Mae gan oedolion sy'n galluogi dysgu rôl allweddol i'w chwarae wrth greu amgylcheddau sy'n ddiogel yn emosiynol. Mae'r amgylcheddau hyn yn helpu plant i ddechrau adnabod a rheoli eu teimladau a'u hymddygiad mewn ffyrdd cadarnhaol. Gall oedolion sy'n sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad, ac sy'n dangos gofal a chymorth emosiynol gwirioneddol, helpu i feithrin ymdeimlad cadarn o berthyn i bob plentyn. Gall yr ymlyniadau a'r cydberthnasau cadarn hyn helpu plant i fagu hunanhyder, gan sicrhau eu bod nhw'n gallu gwneud dewisiadau gwell, eu bod nhw'n fwy gwydn ac annibynnol, a'u bod nhw'n cymryd rhan gadarnhaol mewn gweithgareddau pob dydd.
Wrth asesu, mae'n hanfodol ein bod ni'n neilltuo amser i ddod i adnabod y plentyn a deall ei gefndir unigryw, gan gynnwys ei ddiwylliant a'i brofiadau blaenorol, er mwyn creu darlun cyfannol o bob plentyn i sicrhau y gallwn ni ddiwallu ei anghenion cymdeithasol ac emosiynol.

| Ystyriwch: | I ddechrau: | Wrth i mi ddatblygu: | Wrth i mi barhau i ddatblygu: |
|---|---|---|---|
| **I ba raddau ydw i'n dangos fy mod i'n hapus, wedi setlo ac yn fodlon?** | • Efallai y bydd angen cefnogaeth arnaf i adael fy rhiant neu ofalwr. Efallai y bydd angen gwrthrych pontio arnaf i am gysur, neu efallai y bydd angen i mi wybod ble mae'r gwrthrych rhag ofn y bydd ei angen arnaf i.<br>• Efallai y bydd yn well gen i aros mewn un ardal o'r lleoliad neu yng nghwmni un oedolyn.<br>• Efallai y bydd angen help arnaf i yn ystod y sesiwn i ymdopi â newidiadau, arferion newydd a phrofiadau newydd. | • Efallai y byddaf i'n cyrraedd y lleoliad yn fwy bodlon ac efallai na fydd angen gwrthrych pontio arnaf i mor aml, os o gwbl.<br>• Gyda chymorth, efallai y byddaf i'n awyddus i archwilio ardaloedd eraill o'r lleoliad a chymryd rhan mewn amrywiaeth ehangach o brofiadau.<br>• Efallai y byddaf i'n ymdopi'n well â newidiadau a phrofiadau newydd. | • Efallai y byddaf i'n dangos mwy o hyder wrth ddefnyddio sawl ardal o'r lleoliad a chymryd rhan mewn amrywiaeth ehangach o brofiadau.<br>• Efallai y byddaf i'n dangos brwdfrydedd ac annibyniaeth gynyddol wrth ryngweithio o ddydd i ddydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sut ydw i'n dangos ymdeimlad o berthyn?** | • Efallai y bydd angen i mi gael help gan oedolyn i fynegi fy anghenion a'm dymuniadau.<br>• Gyda chymorth, efallai y byddaf i'n dechrau dilyn arferion a rhai rheolau a ffiniau.<br>• Efallai y byddaf i'n ymateb i oedolyn(oedolion) penodol ac efallai y byddaf i'n dychwelyd ato(atyn nhw) yn aml am gysur a thawelwch meddwl.<br>• Gyda chymorth, efallai y byddaf i'n dechrau archwilio fy amgylchedd a'm cymuned. | • Efallai y byddaf i'n fwy abl i fynegi fy anghenion a'm dymuniadau.<br>• Efallai y byddaf i'n dangos fy mod i'n dechrau sylweddoli fy mod i'n debyg ac yn wahanol i eraill.<br>• Efallai y byddaf i'n gallu dilyn arferion, rheolau a ffiniau ag ymreolaeth gynyddol. | • Efallai y byddaf i'n gallu mynegi fy nymuniadau, fy anghenion a'm barn, ac efallai y byddaf i'n dechrau cydnabod anghenion eraill.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau dangos ymwybyddiaeth o'r cysylltiad rhyngof fi ac eraill.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau dangos fod gennyf i rôl i'w chwarae wrth ofalu am y lleoliad.<br>• Efallai y byddaf i'n rhannu profiadau sy'n adlewyrchu fy nghartref a'm diwylliant. |
| **I ba raddau ydw i'n ymateb i strategaethau cydreoli?** | • Gyda chymorth, efallai y byddaf i'n dechrau dangos fy mod i'n adnabod fy nheimladau ac yn dangos fy anghenion emosiynol.<br>• Gyda chymorth, efallai y byddaf i'n dechrau rheoli'r ffordd rwy'n ymateb i'm hemosiynau. | • Efallai y byddaf i'n dechrau dangos ymwybyddiaeth o'm teimladau a'm hemosiynau ac yn rheoli'r ffordd rwy'n ymateb iddyn nhw. | • Efallai y byddaf i'n dechrau dangos ymwybyddiaeth o deimladau eraill ac yn ymateb iddyn nhw, er enghraifft cysuro eraill os byddan nhw'n ofidus. |
| **I ba raddau ydw i'n meithrin cydberthnasau ag eraill yn y lleoliad?** | • Efallai y byddaf i'n treulio'r rhan fwyaf o'm hamser yn chwarae ar fy mhen fy hun.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau rhyngweithio ag eraill wrth chwarae ond efallai y byddaf i'n treulio mwy o amser yn arsylwi. | • Efallai y byddaf i'n chwarae ochr yn ochr ag eraill, ac efallai y byddaf i'n dechrau rhyngweithio â nhw.<br>• Efallai y byddaf i'n rhyngweithio ag eraill wrth ddilyn arferion dyddiol, yn fwyfwy annibynnol. | • Efallai y byddaf i'n chwarae â phlant eraill sy'n mwynhau gwneud yr un gweithgareddau â mi.<br>• Efallai y byddaf i'n dechrau chwarae mewn sefyllfaoedd grŵp, gan gyfrannu at fwriadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Efallai y byddaf i'n dechrau ymuno mewn grwpiau am gyfnodau byr o amser.<br>• Gyda chymorth, efallai y byddaf i'n dechrau rhyngweithio ag eraill wrth ddilyn arferion dyddiol, er enghraifft yn ystod amser byrbryd. | | cyffredin y grŵp gan helpu i gynnal y chwarae.<br>• Efallai y byddaf i'n rhyngweithio'n rheolaidd ac yn frwdfrydig ag eraill wrth ddilyn arferion dyddiol. |

## 7.5 Pwyntiau allweddol i'w hystyried wrth gynnal asesiadau cychwynnol

- A ydw i wedi treulio digon o amser yn dod i adnabod y plentyn ac yn meithrin cydberthynas gref ag ef?
- A ydw i wedi defnyddio'r cyfnod o chwe wythnos yn effeithiol?
- A ydw i wedi rhoi ystyriaeth deg i'r meysydd asesu gorfodol?
- Ai fy marn i yn unig yw hyn neu ydw i wedi ystyried safbwyntiau eraill?
- A ydw i'n parchu cyfraniadau rhieni a gofalwyr?
- A ydw i'n ystyriol o unrhyw ragfarn ddiarwybod a allai fod gennyf i, neu a allai fod gennyn ni fel tîm?
- A yw fy arsylwadau anymwthiol wedi'u gwneud mewn cyd-destunau dilys?
- A ydw i wedi arsylwi ar y plant tu mewn, tu allan a gydol y dydd?
- A ydw i wedi seilio fy asesiad ar amrywiaeth o arsylwadau o safon, yn hytrach nag ar ddigwyddiad untro?
- A oes arsylwadau wedi'u gwneud yn ystod cyfnodau di-dor o chwarae?
- A ydw i wedi cynllunio fy amgylchedd fel bod digon o gyfleoedd i'r plant ddefnyddio ac ailedrych ar amrywiaeth o sgiliau?
- A yw fy nghofnodion yn gywir, yn ddefnyddiol ac yn hawdd eu rheoli? A ydw i wedi cynnwys dyddiadau?
- A ydw i wedi ceisio cyngor ac wedi gweithredu arno lle y bo angen?

## 8. Geirfa

| Cymraeg | Saesneg | Diffiniad |
|---|---|---|
| Adnoddau byd bach | Small-world resources | Propiau neu deganau a ddefnyddir gan blant wrth chwarae. |
| Agweddau at ddysgu | Dispositions to learning | Y ffordd y mae plant yn cymryd rhan yn y broses ddysgu ac yn uniaethu â hi. |
| Chwarae cynrychioliadol | Representational play | Math o chwarae y mae plant bach yn cymryd rhan ynddo, lle maen nhw'n defnyddio gwrthrych neu degan i gynrychioli rhywbeth arall. |
| Cyfleoedd dysgu digymell | Teachable moments | Digwyddiadau neu brofiadau annisgwyl neu heb eu cynllunio sy'n cynnig cyfle i ddysgu. Maen nhw'n rhoi cyd-destun ystyrlon i oedolion gyflwyno neu ymhelaethu ar rywbeth sy'n ennyn chwilfrydedd y plentyn. |
| Cyffredinoli | Generalise | Y gallu i ddefnyddio sgiliau mewn amgylcheddau newydd a gwahanol. |
| Croesi'r llinell ganol | Cross the midline | Symudiad lle mae rhan o'r corff yn gallu symud yn ddigymell i ochr arall y corff er mwyn gweithio yno, er enghraifft rhoi'r llaw dde ar yr ysgwydd chwith. |
| Cymhwysedd strategol | Strategic competence | Gallu plentyn i gymhwyso strategaethau er mwyn ffurfio a datrys problemau mathemategol. |
| Cymwyseddau | Competencies | Yr hyn sy'n galluogi plant i gymhwyso neu ddefnyddio cyfres o wybodaeth, sgiliau a galluoedd cysylltiedig. |
| Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig | Statements of what matters | Yr egwyddorion allweddol neu'r 'syniadau mawr' sy'n sail i bob maes dysgu a phrofiad. |
| Dealltwriaeth gysyniadol | Conceptual understanding | Dealltwriaeth integredig a gweithredol o syniadau mathemategol. |
| Deheurwydd | Dexterity | Y gallu i ddefnyddio'r dwylo'n fedrus. |
| Deialog broffesiynol | Professional dialogue | Trafodaethau rhwng ymarferwyr sy'n eu galluogi i rannu a myfyrio ar eu profiadau er mwyn datblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Mae'r rhai sy'n rhan o drafodaethau yn cyfrannu'n gyfartal. |
| Diddordebau arbennig | Fascinations | Pethau sy'n ennyn diddordeb neu fwynhad plentyn. |
| Ffyrdd newydd o feddwl | Emergent thinking | Y broses lle mae plant yn datblygu damcaniaethau a syniadau drwy archwilio. |
| Galluoedd | Capacities | Yr hyn sy'n galluogi plant i ddysgu a deall. |

| | | |
|---|---|---|
| Gwrthrych pontio | Transitional object | Rhywbeth sy’n rhoi cysur neu dawelwch meddwl i blentyn, er enghraifft doli, tedi neu flanced. |
| Meysydd dysgu a phrofiad | Areas of learning and experience | Y meysydd pwnc allweddol yr addysgir Cwricwlwm i Gymru drwyddyn nhw. Ceir chwe maes dysgu a phrofiad o fewn Cwricwlwm i Gymru:<br>• Y Celfyddydau Mynegiannol<br>• Y Dyniaethau<br>• Iechyd a Lles<br>• Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>• Mathemateg a Rhifedd<br>• Gwyddoniaeth a Thechnoleg |
| Print amgylcheddol | Environmental print | Print y gellir ei weld mewn bywyd bob dydd, er enghraifft ar arwyddion, logos a labeli. Mae’r term hwn hefyd yn cynnwys print sy’n gyfarwydd i blant mewn lleoliad, er enghraifft enwau’r plant ar begiau cotiau. |
| Rhagfarn ddiarwybod | Unconscious bias | Rhagfarn anfwriadol neu farn ddi-sail o blaid neu yn erbyn un peth, person neu grŵp o gymharu ag un arall, mewn ffordd sy’n cael ei hystyried yn annheg fel arfer. |
| Sgiliau motor bras | Gross motor skills | Y gallu i reoli symudiadau ac ystumiau’r corff cyfan. |
| Sgiliau motor manwl | Fine motor skills | Y gallu i reoli symudiadau gan ddefnyddio cyhyrau bach y dwylo a’r arddyrnau. |
| Ymdrochi | Wallow | Pwynt lle mae plentyn yn ymddiddori cymaint yn ei brofiadau chwarae neu ddysgu nes ei bod hi’n anodd tynnu ei sylw.[10] |
| Ymreolaeth | Autonomy | Gallu plentyn i ddilyn ei werthoedd a’i ddiddordebau ei hun. |

[10] Cafodd y term hwn ei boblogeiddio gan yr Athro Tina Bruce yn *Learning Through Play, 2nd Edition for Babies, Toddlers and Young Children* (2011).

## 9. Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 1**

i) Ydych chi'n gweithio mewn lleoliad meithrin a ariennir nas cynhelir neu'n cefnogi darpariaeth addysg mewn lleoliad o'r fath?
ii) Os ydych, mewn pa fath o leoliad neu sefydliad ydych chi'n gweithio? (Os nad ydych, ewch i iv isod.)
iii) Beth yw eich prif rôl?
iv) Os nad ydych yn gweithio mewn lleoliad a ariennir nas cynhelir neu'n cefnogi darpariaeth addysg mewn lleoliad o'r fath, o ba safbwynt yr hoffech chi roi adborth?
v) Ydych chi'n rhoi adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

**Cwestiwn 2** – Ydych chi wedi darllen y ddogfen ymgynghori 'Trefniadau asesu drafft ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir'?

**Cwestiwn 3**

i) Ydych chi'n ymwybodol o'r dyletswyddau cyfreithiol ar gyfer trefniadau asesu mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir?
ii) I ba raddau y bydd y trefniadau asesu hyn yn cefnogi ymarferwyr i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol i asesu cynnydd plant mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir?

**Cwestiwn 4** – Pa mor glir yw hi y dylai ymarferwyr ddefnyddio'r trefniadau hyn i'w helpu gyda'u hasesiadau wrth gynllunio cynnydd?

**Cwestiwn 5**

i) Ydy hi'n glir sut y dylid rhoi'r egwyddorion cynnydd ar waith wrth wneud penderfyniadau am drefniadau dysgu a datblygu plant?
ii) Pa mor ddefnyddiol yw'r tabl sy'n dangos sut y gellir rhoi'r egwyddorion cynnydd ar waith er mwyn helpu i asesu trefniadau dysgu a chynnydd plant iau?
iii) Beth arall, os unrhyw beth, fyddech chi'n hoffi inni ei gynnwys yn y tabl?

**Cwestiwn 6** – Pa mor ddefnyddiol fydd y trefniadau asesu i ymarferwyr wrth ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd (a nodir yn adran 4.3 o'r ddogfen ymgynghori)?

**Cwestiwn 7**

i) Ydy hi'n glir bod asesu cychwynnol (adran 7) a pharhaus (adran 5.1) yr un mor bwysig â'i gilydd i gynnydd plant?
ii) Yn eich barn chi, pa derminoleg sydd fwyaf defnyddiol wrth gyfeirio at yr asesiadau y mae'n rhaid eu cynnal o fewn 6 wythnos ar ôl i blentyn ddechrau cael addysg feithrin a ariennir?

**Cwestiwn 8** – Ydy pwrpas yr asesu parhaus (adran 5.1) yn cael ei esbonio'n glir?

**Cwestiwn 9** – Ydy rôl arsylwi wrth asesu yn cael ei esbonio'n glir?

**Cwestiwn 10**

i) Ydy pwrpas yr asesu cychwynnol yn cael ei esbonio'n glir?
ii) I ba raddau mae'r disgrifiadau yn yr adran ar asesu cychwynnol o gymorth i ymarferwyr o ran deall sut mae plant yn gwneud cynnydd?
iii) Pa wybodaeth arall, os o gwbl, fyddech chi'n hoffi inni ei chynnwys fel rhan o'r disgrifiadau hyn?
iv) Ydy'r ffordd y mae'r disgrifiadau wedi'u gosod yn helpu ymarferwyr i lunio barn am gynnydd plant unigol?

**Cwestiwn 11** – Beth arall sydd ei angen i gefnogi'r defnydd o'r trefniadau asesu yn ymarferol?

**Cwestiwn 12** – Allwch chi weld y trefniadau asesu hyn yn cefnogi cynnydd plant o fewn ac ar draws llwybrau datblygiad y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir?

**Cwestiwn 13** – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y gallai'r trefniadau asesu hyn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 14** – Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r trefniadau asesu hyn gael eu llunio neu eu newid fel eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn

llai ffafriol na’r Saesneg, ac i sicrhau nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

**Cwestiwn 15** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael yn benodol â hwy, defnyddiwch y blwch hwn i’w nodi: